MWY NEU LAI CYFARTAL?

BYWYDAU IFANC MEWN BYD ANGHYFARTAL

Mae'r adnodd hwn wedi'i greu ar gyfer athrawon daearyddiaeth, mathemateg, Cymraeg a Saesneg gyda mewnbwn a chefnogaeth gan y Gymdeithas Ddaearyddol, y Gymdeithas Fathemategol a'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysgu Saesneg ac mae'n addas ar gyfer Astudiaethau Cymdeithasol yn yr Alban.

TROSOLWG I ATHRAWON

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau
- Strwythur ac amseru
- Gwahaniaethu
- Grŵp oedran
- Meddwl, paru, rhannu
- Amlinelliad manwl o'r adnoddau
- Dinasyddiaeth fyd-eang
- Cydnabyddiaethau
- Telerau defnyddio

Cyflwyniad

Beth yw Young Lives?

Datblygwyd yr adnodd Daearyddiaeth, Mathemateg a Chymraeg hwn gan Oxfam ar y cyd â Young Lives. Mae Young Lives yn brosiect ymchwil rhyngwladol sy'n astudio achosion a chanlyniadau tlodi plant. Ers dros 15 mlynedd, mae ymchwilwyr wedi dilyn bywydau 12,000 o blant mewn pedair gwlad. Arweinir y prosiect gan dîm yn yr Adran Datblygiad Rhyngwladol ym Mhrifysgol Rhydychen yn y DU, ar y cyd â phartneriaid ymchwil a pholisi mewn pedair gwlad: Ethiopia, India, Periw a Fietnam.

Mae'r ymchwil wedi dilyn pob un o'r 12,000 o blant ac wedi cynnwys cyfweliadau mynych â nhw bob tair blynedd. Casglwyd data ar ffurf arolygon am eu bywydau, eu teuluoedd, eu cymunedau a'u hysgolion drwy gyfweliadau â'r holl blant, eu rhieni a rhai cynrychiolwyr cymunedol. Mae gwaith manwl pellach wedi'i wneud gyda nifer llai o blant ym mhob gwlad: treuliodd ymchwilwyr tua wythnos yn y gymuned, gan weithio gyda'r plant yn unigol ac mewn grwpiau gyda'u cyfoedion. Maent hefyd wedi cyfweld ag aelodau eraill o'u teuluoedd a'u cymunedau. Roedd hyn yn darparu'r math o gipolwg a gwybodaeth sy'n anodd eu casglu mewn holiadur arolwg mawr.

Mae'r adnodd hwn yn cyflwyno dysgwyr i bobl ifanc dethol o bob un o'r pedair gwlad sy'n rhan o brosiect Young Lives. Mae'r bobl ifanc hyn ymysg y rhai a fu'n rhan o'r cyfweliadau manwl. Fodd bynnag, mae eu henwau wedi'u newid ac nid oes yr un o'r lluniau sy'n cyd-fynd â'r adnodd yn dangos plant y prosiect Young Lives. Diben hyn yw amddiffyn y plant rhag diddordeb allanol ac atal

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

unigolion rhag cael eu hadnabod a'u nodi mewn unrhyw ffordd o bosibl. Mae nifer o wahanol blant yn ymddangos yn y ffotograffau drwy gydol yr adnoddau.

Nod Young Lives yw darparu tystiolaeth ar gyfer llywodraethau a sefydliadau rhyngwladol i'w helpu i wella polisïau a rhaglenni i blant. Mae'r ymchwilwyr wedi darganfod llawer am y plant unigol a'u teuluoedd, megis ble a sut y maent yn byw, rhai o'r problemau y maent yn eu hwynebu ac a ydynt yn credu bod ganddynt fywyd da neu fywyd gwael. Maen nhw'n gwybod am obeithion ac ofnau'r plant yn ogystal â'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.younglives.org.uk

Thema anghydraddoldeb

Thema sylfaenol *Mwy neu Lai Cyfartal?* yw anghydraddoldeb, sy'n cyfeirio at wahaniaethau eang mewn poblogaeth o ran eu cyfoeth, eu hincwm a'u mynediad at wasanaethau hanfodol fel iechyd ac addysg. Gall y gwahaniaethau hyn ddigwydd rhwng cymunedau yn yr un wlad, neu rhwng gwledydd. Gall anghydraddoldeb hefyd fod yn berthnasol i gyfleoedd anghyfartal (cyfleoedd bywyd) a chanlyniadau anghyfartal.

Mae bwlch sy'n tyfu'n gyflym rhwng y cyfoethog a'r tlawd bellach yn cael ei weld mewn llawer o wledydd ledled y byd. Mae saith o bob 10 o bobl yn y byd yn byw mewn gwledydd lle mae anghydraddoldeb economaidd wedi cynyddu yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Pe bai holl gyfoeth y blaned yn cael ei rannu'n ddau, byddai bron i hanner yn mynd i'r un y cant cyfoethocaf a'r hanner arall i'r 99 y cant sy'n weddill o'r boblogaeth.[i] Mae anghydraddoldeb yn broblem gynyddol yn y DU. Mae'r pum teulu cyfoethocaf yn y DU bellach yn gyfoethocach na'r 20 y cant isaf o'r boblogaeth (12.6 miliwn o bobl).[ii]

i Working for the few: Political capture and economic inequality (Ricardo Fuentes-Nieva a Nick Galasso, Oxfam International, 2014)

policy-practice.oxfam.org.uk/publications/working-for-the-few-political-capture-and-economic-inequality-311312

ii A Tale of Two Britains: Inequality in the UK (Sarah Dransfield, Oxfam, 2014)

policy-practice.oxfam.org.uk/publications/a-tale-of-two-britains-inequality-in-the-uk-314152

Young Lives ac anghydraddoldeb

Mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd sy'n rhan o astudiaeth Young Lives yn dlawd, neu'n gymharol dlawd. Dros y 13 mlynedd ers i'r plant a'u teuluoedd gael eu cyfweld gyntaf yn 2002, mae'r sefyllfa economaidd ym mhob un o'r gwledydd ble maent yn byw wedi gwella. Rhwng 1995 a 2010, tyfodd Incwm Gwladol Gros (GNI) y pen 91% yn Ethiopia, 122% yn India, 61% ym Mheriw a 145% yn Fietnam. Yn gyffredinol, mae'r ymchwilwyr wedi canfod bod teuluoedd y prosiect Young Lives hefyd wedi mynd yn llai tlawd yn ystod y cyfnod hwn. Mae llawer o deuluoedd wedi sylwi ar welliant mewn amodau byw a seilwaith fel trydan, dŵr diogel, toiledau a ffyrdd.[iii]

Fodd bynnag, mae ymchwilwyr Young Lives hefyd wedi canfod bod anghydraddoldeb wedi tyfu dros y cyfnod hwn. Mae bwlch cynyddol rhwng y cyfoethog a'r tlawd, rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd dinesig, rhwng bechgyn a merched a rhwng y mwyafrif ethnig a'r lleiafrifoedd ethnig. Ym mhob un o'r pedair gwlad, canfu ymchwilwyr fod yr un plant yn aml yn wynebu anfanteision lluosog yn seiliedig ar ble maent yn byw, eu grŵp ethnig neu gymdeithasol, ac a ydynt yn ferched neu'n fechgyn. Wrth i blant fynd yn hŷn, mae'r gwahaniaethau rhyngddynt yn cynyddu, gan gynnwys y rhai rhwng bechgyn a merched. Yn gyffredinol, mae astudiaeth Young Lives wedi gweld sut y mae

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol. Trosolwg i Athrawon

OXFAM

anghydraddoldeb yn tanseilio datblygiad potensial dynol, gyda phlant o deuluoedd difreintiedig yn disgyn ar ei hôl hi'n gyflym o ran dysgu cynnar a chanlyniadau eraill.

iii Changing Lives in a Changing World: Young Lives children growing up (Young Lives, 2012)

Efallai yr hoffech chi hefyd ddarllen adroddiad Young Lives: *What Inequality Means for Children*, sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan Young Lives: www.younglives.org.uk

Nodau

Defnyddio astudiaethau achos a data go iawn i ennyn diddordeb disgyblion a'u galluogi i weld perthnasedd ymarferol daearyddiaeth, astudiaethau cymdeithasol (yr Alban), mathemateg, Saesneg a Chymraeg yn y byd o'u cwmpas.

- Annog dulliau addysgu a dysgu cyfranogol, ymchwiliol a chydweithredol.
- Annog sgiliau meddwl yn feirniadol am faterion a gwerthoedd.

Strwythur ac amseru

Mae'r adnodd wedi'i rannu'n gyflwyniad, y tri maes pwnc a rhai opsiynau myfyrio a rhannu. Mae'r sesiwn derfynol ar gyfer myfyrio a rhannu yn annog dysgwyr i ystyried ffyrdd y gallent rannu eu dysgu ag eraill. Rydym yn argymell eich bod yn annog dysgwyr i gadw cofnod byr o'u dysgu allweddol ar ddiwedd pob sesiwn gan ddefnyddio *Fy Nhaith Ddysgu* (gweler isod).

Mae pob maes pwnc wedi'i rannu'n chwech neu saith sesiwn hyblyg ac awgrymir gwahanol weithgareddau:

- Cyflwyniad: un sioe sleidiau, un gweithgaredd dewisol.
- Daearyddiaeth: saith sesiwn, dwy sioe sleidiau.
- Mathemateg: chwe sesiwn, dwy sioe sleidiau.
- Cymraeg: chwe sesiwn, dwy sioe sleidiau.
- Myfyrio a rhannu: un sesiwn.

Yn ddelfrydol, bydd y dysgwyr yn cwblhau pob sesiwn ar gyfer y tri phwnc ac mae arwyddbyst i annog hyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd gweithio mewn ffordd drawsgwricwlaidd yn bosibl ym mhob ysgol, felly rydym wedi sicrhau y gall athrawon unigol hefyd ddefnyddio'r cyflwyniad, chwech neu saith sesiwn yn eu maes pwnc a'r myfyrio fel adnodd annibynnol. Sylwer bod *sesiwn Daearyddiaeth 7*, o'r enw *Newidiadau dros amser*, yn archwilio'r hyn sydd wedi digwydd i gymunedau Young Lives ers dechrau'r astudiaeth yn 2000 ac efallai y bydd o ddiddordeb i athrawon Cymraeg a mathemateg hefyd.

Rydym wedi ceisio cadw'r adnoddau mor hyblyg â phosibl ym mhob maes pwnc, fel y gall athrawon greu teithiau dysgu personol i'w dysgwyr gan gynnal y neges anghydraddoldeb drwyddi draw. Gall athrawon benderfynu hepgor rhai sesiynau a/neu weithgareddau yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael a gwybodaeth, dealltwriaeth ac anghenion presennol eu dysgwyr. Efallai y byddai'n briodol rhannu’r gweithgareddau mewn rhai sesiynau dros fwy nag un wers.

Mae pob sesiwn yn dechrau gyda throsolwg sy'n cynnwys amcanion dysgu, deilliannau dysgu a chwestiynau allweddol. Darperir amseriadau bras i weithgareddau a awgrymir ond nid ydynt yn cynnwys amser y gallai fod ei angen ar gyfer mewnbwn addysgu ychwanegol am rai o'r cysyniadau.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu’r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

Gan fod y sesiynau wedi'u cynllunio i'w defnyddio'n hyblyg, gall cyfanswm yr amser a gymerir i gwblhau'r holl weithgareddau amrywio. Ni chynhwysir unrhyw adnoddau ar gyfer cychwyn gwersi a sesiynau llawn gan y tybir y bydd athrawon am gynllunio'r rhain yn unigol. Mae'r holl daflenni adnoddau a gweithgareddau wedi'u cynnwys yn y trosolwg o'r sesiynau.

Gwahaniaethu

Lle bo'n bosibl, mae'r gweithgareddau a'r adnoddau'n cael eu gwahaniaethu i ddiwallu anghenion gwahanol ddysgwyr yn y dosbarth. Gallai hyn hefyd fod yn ddefnyddiol wrth addasu rhai o'r gweithgareddau i ddiwallu anghenion dysgwyr iau a hŷn.

Grŵp oedran

Ysgrifennwyd yr adnoddau hyn yn bennaf ar gyfer dysgwyr 11 i 14 oed; fodd bynnag, maent yn addas i'w defnyddio ar draws yr ystod oedran 11 i 16. Fodd bynnag, gellid addasu llawer o'r gweithgareddau hefyd i'w defnyddio gyda dysgwyr iau neu hŷn. Ar gyfer gweithgareddau mathemategol symlach yn seiliedig ar y prosiect Young Lives ar gyfer dysgwyr iau rhwng 8 a 12 oed, gweler adnoddau *Mae Pawb yn Cyfri* Oxfam: www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts

Meddwl, paru, rhannu

Efallai eich bod yn gyfarwydd â'r fethodoleg ganlynol, a ddefnyddir mewn sawl gweithgaredd o fewn *Mwy neu Lai Cyfartal?:*

- Meddwl: Gofynnwch i'r dysgwyr dreulio munud yn meddwl ar eu pennau eu hunain.
- Paru: Gofynnwch i'r dysgwyr rannu eu syniadau â phartner.
- Rhannu: Rhannwch syniadau'r dysgwyr fel grŵp cyfan.

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.

YOUNG LIVES

FY NHAITH DDYSGU

Enw: _____

Sesiwn	Beth yr oeddwn eisoes yn ei wybod …	Beth a ddysgais …	Sut yr oeddwn yn teimlo …	Beth arall yr hoffwn ei wybod?/Pa gwestiynau sydd gennyf?
1				
2				
3				
4				

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.
Trosolwg i Athrawon

OXFAM

Sesiwn	Beth yr oeddwn eisoes yn ei wybod …	Beth a ddysgais …	Sut yr oeddwn yn teimlo …	Beth arall yr hoffwn ei wybod?/Pa gwestiynau sydd gennyf?
5				
6				
7 (Ar gyfer Daearyddiaeth yn unig)				
Myfyrio: Y pwyntiau allweddol yr wyf wedi'u dysgu/Y pwyntiau mwyaf diddorol yn gyffredinol/Beth yr hoffwn ei rannu â phobl eraill?				

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol.
Trosolwg i Athrawon

OXFAM

Amlinelliad manwl ar gyfer sesiynau Daearyddiaeth, Mathemateg a Chymraeg

Daearyddiaeth

Noder: y term priodol yn yr Alban ar gyfer y sesiynau hyn yw Astudiaethau Cymdeithasol, ond oherwydd diffyg lle rydym yn eu galw'n sesiynau Daearyddiaeth.

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Daearyddiaeth 1: *Ble yn y byd?*	• Cydnabod rhai ffyrdd y mae pobl ifanc yn y DU yn gysylltiedig â gwledydd a phobl eraill yn y byd. • Gallu dod o hyd i bedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU ar fap o'r byd, ynghyd â gwledydd sy'n ffinio a chyrff dŵr. • Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data. • Bod yn ymwybodol o rai anghydraddoldebau rhwng gwledydd sy'n bodoli rhwng pedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU.	• Bydd y dysgwyr yn archwilio'r cysylltiadau sydd ganddynt hwy a'u cyfoedion â gwledydd a phobl eraill yn y byd. • Bydd y dysgwyr yn nodi pedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU ar fap o'r byd, ynghyd â gwledydd sy'n ffinio a chyrff dŵr. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffotograffau i archwilio eu gwybodaeth a'u rhagdybiaethau presennol am y gwledydd hyn. • Bydd y dysgwyr yn nodi ac yn trafod enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd.	• Sut yr ydym wedi'n cysylltu â gwledydd a phobl eraill yn y byd? • Beth ydych chi eisoes yn ei wybod am y gwledydd hyn? Beth hoffech chi ei ddarganfod? • Sut beth yw bywyd yn y gwledydd hyn yn eich barn chi? • Pa dystiolaeth ydych chi'n seilio eich syniadau neu'ch rhagdybiaethau arni? • Allwch chi nodi unrhyw enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng y gwledydd?	• Gweithgaredd 1.1: *Globingo (gweithgaredd cynhesu dewisol)* • Gweithgaredd 1.2: *Ble yn y byd?* • Gweithgaredd 1.3: *Gweld bylchau* • Gweithgaredd 1.4: *Ar y map*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth A* (sleidiau 2–8) • Taflenni adnoddau: o *Cipolwg ar wledydd: A, B, C, D* ac *E* o *Cipolwg ar wledydd: nodiadau cyfeirio 1 a 2* o *Mapiau o wledydd Young Lives: Ethiopia, India, Periw* a *Fiet-nam* • Taflenni gweithgareddau: o *Globingo* o *Ble yn y byd?*
Daearyddiaeth 2: *Bylchau rhwng gwledydd*	• Cydnabod bod mesur 'datblygiad yn gymhleth a bod nifer o wahanol ffyrdd y gellir ei fesur, yn dibynnu ar sut y diffinnir y term. • Datblygu sgiliau daearyddol wrth ddadansoddi a dehongli gwahanol ffynonellau data. • Bod yn ymwybodol o rai anghydraddoldebau rhwng gwledydd sy'n bodoli rhwng pedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU. • Nodi anghydraddoldebau rhwng gwledydd gan ddefnyddio rhai dangosyddion ynghylch datblygiad.	• Bydd y dysgwyr yn trafod manteision a chyfyngiadau rhai gwahanol ddangosyddion ynghylch datblygiad • Bydd y dysgwyr yn chwarae *Trumps Datblygiad* i gymharu pa mor 'ddatblygedig' yw rhai gwahanol wledydd yn y byd yn ôl rhai o'r dangosyddion hyn. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwahanol ffynonellau data i nodi a thrafod enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd.	• Pa ddangosydd, yn eich barn chi, yw'r mesur gorau o ddatblygiad a pham? • A oes unrhyw ffyrdd eraill y credwch y dylid mesur datblygiad? • Pa fylchau rhwng gwledydd a wnaethoch chi sylwi arnynt? • Pa enghreifftiau o anghydraddoldeb rhwng gwledydd y daethoch o hyd iddynt? • Ydych chi'n meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam ydych chi'n meddwl hyn?	• Gweithgaredd 2.1: *Mesur datblygiad* • Gweithgaredd 2.2: *Trumps Datblygiad* • Gweithgaredd 2.3: *Mesur bylchau rhwng gwledydd* • Gweithgaredd 2.4: *Mapio bylchau rhwng gwledydd*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth A* (sleidiau 9–17) • Taflenni adnoddau: o *Dangosyddion Trumps Datblygiad / Cardiau Development Trumps 1* i *4* o *Archwilio dangosyddion datblygu / Mesur datblygiad / Mesur dangosyddion datblygu* • Taflenni gweithgareddau: o *Ystyried datblygiad* o *Bylchau rhwng gwledydd / Mapio bylchau rhwng gwledydd*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Daearyddiaeth 3: *Mapio anghydraddoldebau*	• Ymestyn gwybodaeth leoliadol ac ymwybyddiaeth ofodol o bedair gwlad y prosiect Young Lives (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). • Datblygu sgiliau wrth greu a dehongli mapiau meddwl am ardaloedd lleol. • Gallu defnyddio Google Earth i gyfrifo pellteroedd i amwynderau mewn ardal. • Dehongli gwahanol ffynonellau gwybodaeth (testun ysgrifenedig, mapiau meddwl, Google Earth a data tabl) a'u defnyddio i nodi rhai anghydraddoldebau rhwng pedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU ac o'u mewn.	• Bydd y dysgwyr yn creu mapiau meddwl o'u hardaloedd eu hunain ac yna'n archwilio mapiau meddwl o gymunedau'r prosiect Young Lives yn y pedair gwlad (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam). • Bydd y dysgwyr yn defnyddio Google Earth i gyfrifo pellteroedd i wahanol amwynderau yn eu hardaloedd eu hunain. • Bydd y dysgwyr yn cymharu'r amser a gymerir i gyrraedd amwynderau mewn cymunedau dinesig a gwledig ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth i nodi anghydraddoldebau rhwng pedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU ac o'u mewn.	• Sut le yw eich ardal chi? • Beth mae'r map hwn yn ei ddweud wrthych am sut le yw'r ardal hon? • Allwch chi sylwi ar unrhyw anghydraddoldebau yn y gwledydd neu rhyngddynt? Beth ydyn nhw? • Pa fathau o amwynder sy'n agos at ble rydych chi'n byw? • Pa mor bell ydych chi'n byw o'r amwynderau hyn?	• Gweithgaredd 3.1: *Mapio ble rydw i'n byw* • Gweithgaredd 3.2: *Mapio llefydd eraill* • Gweithgaredd 3.3: *Mapio Bywydau Ifanc* • Gweithgaredd 3.4: *Pa mor bell ydyw?*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth A* (sleidiau 18–32) • Taflenni adnoddau: o *Croeso i'm bywyd: Netsa a Tufa (Ethiopia); Sarada a Salman (India); Elmer ac Eva (Periw); Hung a H'Mai (Fiet-nam)* o *Mapiau meddwl Bywydau Ifanc: Ethiopia, India, Periw* a *Fiet-nam* o *Yr amser y mae'n ei gymryd i gael amwynderau* • Taflen gweithgaredd: o *Pa mor bell ydyw?*
Daearyddiaeth 4: *Y blwch o ran addysg*	• Rhoi enghreifftiau o anghydraddoldebau rhwng gwledydd ac o'u mewn o ran addysg. • Datblygu dealltwriaeth o resymau posibl dros rai o'r anghydraddoldebau addysgol hyn. • Codi ymwybyddiaeth o rôl llywodraethau o ran cyllido addysg a'r gwahaniaethau mewn gwariant ar addysg rhwng India a'r DU .	• Bydd y dysgwyr yn nodi anghydraddoldebau mewn addysg rhwng ac o fewn India a'r DU. • Bydd y dysgwyr yn archwilio rhesymau posibl pam na fydd person ifanc yn India yn gallu mynd i'r ysgol. • Bydd y dysgwyr yn ystyried rôl llywodraethau wrth gyllido addysg.	• Pa debygrwydd sydd rhwng addysg yn India ac yn y DU? • Pa fylchau o ran addysg sydd rhwng India a'r DU? • Pa fylchau o ran addysg sydd yn India? • Beth, yn eich barn chi, allai fod yn rhesymau dros rai o'r anghydraddoldebau hyn? • Sut y byddech yn gwario'r gyllideb?	• Gweithgaredd 4.1: *Bylchau o ran addysg* • Gweithgaredd 4.2: *Pam na all rhai pobl ifanc yn India fynd i'r ysgol?* • Gweithgaredd 4.3: *Sut y byddech yn gwario'r gyllideb?*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth B* (sleidiau 2–24) • Taflenni adnoddau: o *Bylchau o ran addysg 1* a *3* o *Trafod addysg yn India* • Taflenni gweithgareddau: o *Bylchau o ran addysg 2* o *Sut y byddech yn gwario'r gyllideb?* o *Cyllid ar gyfer pob dysgwr* (dewisol) • Fideos: o *Lleisiau o India a Lleisiau o Ethiopia*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Daearyddiaeth 5: *Y blwch o ran iechyd*	• Datblygu sgiliau wrth ddadansoddi a chyflwyno data. • Cydnabod rhai anghydraddoldebau o ran iechyd a gofal iechyd rhwng Ethiopia, Fiet-nam a'r DU a disgrifio canlyniadau diffyg mynediad at ddŵr yfed, glanweithdra a thrydan ar iechyd. • Cydnabod y gall man preswylio effeithio ar fynediad at ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. • Archwilio rhai o achosion lleol, cenedlaethol a byd-eang anghydraddoldeb yn y ddarpariaeth gofal iechyd.	• Bydd y dysgwyr yn nodi rhai anghydraddoldebau o ran iechyd a gofal iechyd rhwng Ethiopia, Fiet-nam a'r DU. • Bydd y dysgwyr yn nodi effeithiau ethnigrwydd a lleoliad daearyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio ffeithluniau a siartiau bar i gyflwyno data. • Bydd y dysgwyr yn asesu gwahanol achosion anghydraddoldeb mewn darpariaeth gofal iechyd yn Fiet-nam.	• Pa anghydraddoldebau mewn iechyd a gofal iechyd sy'n bodoli rhwng y tair gwlad hyn? • Sut y mae byw mewn ardal ddinesig neu wledig yn effeithio ar fynediad at ddŵr yfed yn Ethiopia? • Beth yn eich barn chi yw'r prif rwystrau i ofal iechyd yn y gwledydd hyn? • Beth yw'r atebion posibl yn eich barn chi?	• Gweihgaredd 5.1: *Bylchau rhwng gwledydd o ran iechyd* • Gweithgaredd 5.2: *Bylchau o fewn gwledydd o ran iechyd* • Gweithgaredd 5.3: *Trafod gofal iechyd* • Gweithgaredd 5.4: *Pam y gallai H'Mai ei chael hi'n anodd derbyn yr holl ofal Iechyd sydd ei angen arni?*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth B* (sleidiau 27-33) • Taflenni adnoddau: ○ *Bylchau rhwng gwledydd o ran iechyd* ○ *Bylchau o fewn gwledydd o ran iechyd – Tablau, Siartiau Bar 1* a *2* ○ *Trafod gofal Iechyd yn Ethiopia* a *Fiet-nam* • Taflenni gweithgareddau: ○ *Trafod bylchau o fewn gwledydd o ran iechyd* ○ *Cardiau cudd gofal iechyd*
Daearyddiaeth 6: *Y blwch o fewn y DU*	• Gwahaniaethu rhwng tlodi absoliwt a thlodi cymharol • Archwilio beth y mae byw mewn tlodi cymharol yn y DU yn ei olygu • Adnabod ffyrdd y mae tlodi yn effeithio ar fywydau pobl ifanc yn y DU	• Bydd y dysgwyr yn nodi effeithiau posibl tlodi ar bobl ifanc yn y DU. • Bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am ganlyniadau tlodi yn y DU.	• Yn eich barn chi, beth y mae'n ei olygu i fod yn dlawd yn y DU? • A ydych yn credu bod tlodi yn y DU yr un peth â thlodi yng ngwledydd y prosiect Young Lives, neu'n wahanol? Os felly, sut? • Beth yw canlyniadau byw mewn tlodi yn y DU?	• Gweithgaredd 6.1: *Meddwl am dlodi* • Gweithgaredd 6.2: *Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?* • Gweithgaredd 6.3: *Canlyniadau tlodi*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth B* (sleidiau 34–41) • *Nodiadau cefndir ar dlodi yn y DU* • Taflenni gweithgareddau: ○ *Meddwl am dlodi* ○ *Beth y mae'n ei olygu i fyw mewn tlodi yn y DU?* • Fideo: *Gweld a Chlywed*
Daearyddiaeth 7: *Newidiadau dros amser*	• Nodi peth o'r cynnydd a waned tuag at yr NDMau ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives • Nodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhai o gymunedau'r prosiect Young Lives • Rhagweld newidiadau yn y gwledydd hyn yn y dyfodol • Trafod syniadau ag eraill, a rhoi rhesymau dros ddewisiadau.	• Bydd y dysgwyr yn defnyddio data datblygiad i nodi peth o'r cynnydd a waned yn erbyn y NDMau ym mhob un bedair gwlad y prosiect Young Lives • Bydd y dysgwyr yn defnyddio data ansoddol i nodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yn rhai o gymunedau'r prosiect Young Lives • Bydd y dysgwyr yn defnyddio llinell amser i gofnodi rhai o'r newidiadau sydd wedi digwydd yng nghymunedau'r prosiect Young Lives, ac yna'n rhagweld dyfodol tebygol a dyfodol dymunol.	• Pa gynnydd a waned yn erbyn yr NDMau? • Pa heriau sy'n dal i fodoli? • Yn eich barn chi, pam y mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn rhai targedau (neu mewn rhai gwledydd) ond nid yn erbyn rhai eraill? • Pa newidiadau sy'n fwyaf tebygol o ddigwydd yn y dyfodol yn eich barn chi? • Beth y byddai'n well gennych chi ei weld yn digwydd?	• *Gweithgaredd 7.1: Pa gynnydd a wnaed?* • *Gweithgaredd 7.2: Siarad am newidiadau* • *Gweithgaredd 7.3: Dyfodol delfrydol*	• *Sioe sleidiau Daearyddiaeth B* (sleidiau 42–48) • Taflenni adnoddau: ○ *Siarad am newidiadau – Ethiopia, India, Periw* a *Fiet- nam* • Taflenni gweithgareddau: ○ *Cynnydd yr NDMau – Ethiopia, India, Periw* a *Fiet-nam* ○ *Archwilio newidiadau* ○ *Llinell amser dyfodol delfrydol*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Mathemateg

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Mathemateg 1: *Mesur anghydraddoldeb*	• Deall y gellir mynegi perthynas luosog rhwng dau swm ar ffurf cymhareb. • Deall beth mae anghydraddoldeb rhwng gwledydd ac anghydraddoldeb o fewn gwledydd yn ei olygu. • Nodi rhai ffyrdd y gellir mesur anghydraddoldeb o fewn gwlad. • Datblygu dealltwriaeth o sut y cyfrifir cymhareb Palma.	• Bydd y dysgwyr yn cyfrifo cyfoeth cronnol yr 80 o bobl fwyaf cyfoethog yn y byd. • Bydd y dysgwyr yn dysgu sut y cyfrifir un ffordd o fesur anghydraddoldeb o fewn gwlad (cymhareb Palma). • Bydd y dysgwyr yn defnyddio cymhareb Palma i fynegi perthynas luosog rhwng incwm y 10% cyfoethocaf o boblogaeth gwlad a'r 40% tlotaf.	• Beth mae anghydraddoldeb yn ei olygu? • Sut y gallai bywydau pobl fod yn anghyfartal? • A yw anghydraddoldeb yn deg? • Sut y mae anghydraddoldeb eithafol yn gwneud i chi deimlo?	• Gweithgaredd 1.1: *Yr 80 o bobl fwyaf cyfoethog* • Gweithgaredd 1.2: *Beth yw anghydraddoldeb?* • Gweithgaredd 1.3: *Mesur anghydraddoldeb – Cyfrifo cymhareb Palma*	• *Sioe sleidiau Mathemateg A* (sleidiau 2–21) • Taflenni adnoddau: o *Yr 80 o bobl fwyaf cyfoethog yn y byd – Tablau 1* a *2* o *Ble byddai'n well gennych fyw? Tabl cyflawn* • Taflenni gweithgareddau: o *Rhannu'r incwm* o *Ble byddai'n well gennych fyw? Tablau 1* a *2* o *Ble byddai'n well gennych fyw? Tabl gwag* o *Problemau Palma – Tablau 1* a *2*
Mathemateg 2: *Mesur datblygiad*	• Cydnabod bod mesur datblygiad yn gymhleth a bod nifer o wahanol ffyrdd y gellir ei fesur, yn dibynnu ar sut y diffinnir y term 'datblygiad'. • Gwneud a phrofi damcaniaethau am batrymau a pherthnasoedd rhwng gwahanol ddangosyddion ar gyfer datblygiad.	• Bydd y dysgwyr yn trafod beth mae datblygiad yn ei olygu ac yn nodi rhai ffyrdd gwahanol o'i fesur. • Bydd y dysgwyr yn cymharu rhai gwahanol ddangosyddion ynghylch datblygiad. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio graffiau gwasgariad i nodi a disgrifio patrymau a pherthnasoedd rhwng gwahanol ddangosyddion ar gyfer datblygiad.	• Beth mae datblygiad yn ei olygu? • Sut y gallech fesur datblygiad? • Beth yw manteision a chyfyngiadau'r gwahanol ddangosyddion ar gyfer datblygiad? • Pa batrymau a chysylltiadau a allai fod rhwng y gwahanol ddangosyddion ar gyfer datblygiad? • Sut y byddech yn disgrifio'r cysylltiad rhwng dau wahanol ddangosydd ar gyfer datblygiad?	• Gweithgaredd 2.1: *Mesur datblygiad* • Gweithgaredd 2.2: *Trumps Datblygiad* • Gweithgaredd 2.3: *Cymharu dangosyddion ynghylch datblygiad*	• *Sioe sleidiau Mathemateg A* (sleidiau 22–29) • Taflenni adnoddau: o *Archwilio dangosyddion ynghylch datblygiad* o *Dangosyddion Trumps Datblygiad* o *Data datblygiad 1* a *2* o *Graffiau gwasgariad 1* a *2* o *Cardiau Trumps* Datblygiad *1* i *4* • Taflenni gweithgareddau: o *Disgrifio patrymau* o *Templed ar gyfer graff gwasgariad* • Taenlen Excel: o *Cymharu dangosyddion ynghylch datblygiad*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..

Mathemateg 3: *Bylchau o fewn gwledydd 1*	• Cydnabod manteision casglu data o faint sampl mawr. • Defnyddio tablau dosraniad amlder i gyfrifo cymedr, modd a chanolrif set o ddata ynghylch y defnydd o amser. • Dehongli a chymharu set o ddata ynghylch y defnydd o amser.	• Bydd y dysgwyr yn esbonio pam y defnyddiodd ymchwilwyr y prosiect Young Lives faint sampl mawr wrth gasglu data ynghylch y defnydd o amser. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio tablau dosraniad amlder i gyfrifo'r cymedr, y modd a'r canolrif am faint o amser y mae pobl ifanc yn Ethiopia yn ei dreulio'n gwneud gwahanol weithgareddau. • Bydd y dysgwyr yn cymharu'r defnydd cyfartalog o amser ar gyfer pobl ifanc yn Ethiopia, o ran rhywedd a man preswylio (dinesig neu wledig).	• Pam mae angen maint sampl mawr arnom? • Sut y gallwn gyfrifo'r defnydd cyfartalog o amser? • Yn Ethiopia, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran y defnydd o amser rhwng bechgyn a merched neu bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd dinesig a gwledig? • Beth yn eich barn chi yw'r rhesymau dros rai o'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau hyn? • Ydych chi'n meddwl bod y gwahaniaethau'n deg?	• Gweithgaredd 3.1: *Sut yr ydych yn treulio eich diwrnod?* • Gweithgaredd 3.2: *Cymharu maint samplau* • Gweithgaredd 3.3: *Cyfrifo'r cyfartaledd*	• *Sioe sleidiau Mathemateg A* (sleidiau 30–34) • Taflenni adnoddau: ○ *Diwrnod Hadush* ○ *Croeso i'm bywyd – Hadush* ○ *Cymharu maint samplau* ○ *Y defnydd o amser yn Ethiopia – bechgyn/merched/ardaloedd dinesig/ardaloedd gwledig (Tablau wedi'u cymharu ynghylch dosraniad amlder)* • Taflenni gweithgareddau: ○ *Y defnydd o amser yn Ethiopia – bechgyn* ○ *Y defnydd o amser yn Ethiopia – merched* ○ *Y defnydd o amser yn Ethiopia – ardaloedd dinesig* ○ *Y defnydd o amser yn Ethiopia – ardaloedd gwledig*
Mathemateg 4: *Bylchau o fewn gwledydd 2*	• Deall sut i ddefnyddio arwyddion anghydraddoldeb i gymharu symiau. • Nodi rhai ffyrdd gwahanol o gyflwyno data ac ystyried manteision ac anfanteision gwahanol ffurfiau. • Gallu llunio siart gylch. • Cydnabod y gall ffactorau fel rhywedd a man preswylio (dinesig neu wledig) effeithio ar faint o amser y mae pobl ifanc yn ei dreulio'n gwneud gwahanol weithgareddau dyddiol.	• Bydd y dysgwyr yn defnyddio arwyddion anghydraddoldeb i gymharu data ynghylch y defnydd o amser rhwng bechgyn a merched a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd dinesig a gwledig. • Bydd y dysgwyr yn cymharu ac yn trafod ffyrdd gwahanol o gyflwyno data. • Bydd y dysgwyr yn llunio siartiau cylch i gynrychioli eu data ynghylch y defnydd o amser a'u data ar gyfer rhai pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives.	• Pa weithgareddau ydw i'n eu gwneud bob dydd? Faint o amser ydw i'n ei dreulio ar y gwahanol weithgareddau hyn? • Beth yw manteision ac anfanteision y gwahanol ffyrdd hyn o gyflwyno data ynghylch y defnydd o amser? Oes unrhyw un o'r ffyrdd hyn yn anaddas ar gyfer y data? Pam? • Sut y gallaf lunio siart gylch ar gyfer y data hyn ynghylch y defnydd o amser? • Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran defnydd dyddiol merched a bechgyn o amser? • Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng defnydd pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd dinesig o amser?	• Gweithgaredd 4.1: *Defnyddio siartiau cylch ynghylch y defnydd o amser* • Activity 4.1: *Cymharu'r defnydd o amser*	• *Sioe sleidiau Mathemateg B* (sleidiau 2–12) • Taflenni adnoddau: ○ *Diwrnod Eva 1* a *2* ○ *Siartiau cylch ynghylch y defnydd o amser (Tabl wedi'i gwblhau)* ○ *Y defnydd o amser a rhywedd (Tabl wedi'i gwblhau)* ○ *Y defnydd o amser ac ardaloedd gwledig a dinesig (Tabl wedi'i gwblhau)* • Taflenni gweithgareddau: ○ *Siartiau cylch ynghylch y defnydd o amser (Tabl)* ○ *Templedi ar gyfer siartiau cylch* ○ *Y defnydd o amser a rhywedd (Tablau 1* a *2)* ○ *Y defnydd o amser ac ardaloedd gwledig a dinesig (Tablau 1* a *2)*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Mathemateg 5: *Bylchau rhwng gwledydd*	• Dehongli data ynghylch datblygiad. • Gallu trosi rhwng canrannau a ffracsiynau. • Disgrifio data mewn gwahanol ffyrdd. • Cynhyrchu datganiadau am set o ddata.	• Bydd y dysgwyr yn dehongli data ynghylch datblygiad mewn tabl ar gyfer y DU a phedair gwlad y prosiect Young Lives. • Bydd y dysgwyr yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am y set hon o ddata. • Bydd y dysgwyr yn trosi rhwng canrannau a ffracsiynau. • Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu datganiadau am ddata ynghylch datblygiad.	• Beth mae'r data hyn am ddatblygiad yn ei ddweud wrthym? • Pa gwestiynau y gallem eu gofyn am y data hyn? Beth fyddai'r atebion? • Beth fyddai'r ganran hon fel ffracsiwn? • Pa gyfrifiad a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r datganiad hwn? • Pam y gallai pobl fod eisiau disgrifio data mewn gwahanol ffyrdd?	• Gweithgaredd 5.1: *Cwestiynu data* • Gweithgaredd 5.2: *Ffracsiynau a chanrannau* • Gweithgaredd 5.3: *Cyfrifo canrannau* • Gweithgaredd 5.4: *Disgrifio mewn ffordd wahanol*	• *Sioe sleidiau Mathemateg B* (sleidiau 13–20) • Taflenni adnoddau: o *Mesur datblygiad (Tablau 1, 2* a *3)* o *Mesur dangosyddion datblygiad* o *Ffracsiynau a chanrannau (Tabl wedi'i gwblhau)* o *Disgrifio mewn ffordd wahanol (Datganiadau wedi'u cwblhau)* • Taflenni gweithgareddau: o *Ffracsiynau a chanrannau – (Tablau 1* a *2)* o *Disgrifio mewn ffordd wahanol*
Mathemateg 6: *Newid bylchau dros amser*	• Dehongli data mewn tablau a graff llinell a chyfrifo newidiadau canrannol. • Gallu llunio graff llinell i ddangos sut y mae dangosydd ar gyfer datblygiad wedi newid dros amser ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU. • Nodi rhai ffactorau a allai effeithio ar sut y mae dangosydd ynghylch datblygiad yn newid dros amser. • Gwybod sut i ddefnyddio graff llinell i allosod data.	• Bydd y dysgwyr yn cyfrifo newidiadau canrannol. • Bydd y dysgwyr yn llunio graffiau llinell i ddangos sut y mae mynediad at ddŵr yfed, cyfleusterau glanweithdra, trydan a dangosyddion eraill ynghylch datblygiad wedi newid ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU dros amser. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu graffiau llinell i wneud rhagfynegiadau ynghylch sut y gallai'r dangosyddion hyn ynghylch datblygiad newid yn y dyfodol.	• Sut yr ydych yn meddwl y bydd gwerth y dangosydd hwn yn newid dros amser? Pam ydych chi'n meddwl hyn? • Sut y byddech yn disgrifio'r newid yn y dangosydd hwn dros amser ym mhob un o'r pum gwlad? Pa ffactorau, yn eich barn chi, a gyfrannodd at y newidiadau hyn dros amser? • Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol o ran y gyfradd newid rhwng y pum gwlad? Beth, yn eich barn chi, allai fod yn rhesymau dros unrhyw wahaniaethau? • Sut yr ydych yn meddwl y bydd y dangosydd hwn yn newid yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hyn?	• Gweithgaredd 6.1: *Newidiadau mewn Bywydau Ifanc* • Gweithgaredd 6.2: *Data sy'n newid*	• *Sioe sleidiau Mathemateg B* (sleidiau 21–30) • Taflenni adnoddau: o *Newidiadau mewn Bywydau Ifanc (Tabl wedi'i gwblhau)* o *Cynnyrch Domestig Gros y pen* o *Data sy'n newid 1, 2* a *3* • Taflenni gweithgaredd: o *Newidiadau mewn Bywydau Ifanc / Templed ar gyfer graff llinell / Dehongli graff llinell*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Cymraeg

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Cymraeg 1: *Croeso i'm bywyd*	• Chwarae rôl a datblygu empathi tuag at bobl eraill • Gallu cydweithio a thrafod syniadau ag eraill mewn grŵp • Defnyddio adnoddau ysgrifenedig i ddatblygu gwybodaeth ehangach am fywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives • Cydnabod beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a bywydau'r dysgwyr.	• Bydd y dysgwyr yn defnyddio testun er mwyn pennu a chasglu gwybodaeth am fywydau rhai pobl ifanc yng ngwledydd y prosiect Young Lives. • Bydd y dysgwyr yn crynhoi gwybodaeth am fywyd un o'r bobl ifanc hyn • Bydd y dysgwyr yn chwarae rôl un o'r bobl ifanc hyn • Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau â phobl eraill.	• Beth ydym yn ei wybod am y bobl ifanc dan sylw? • Yn ein barn ni sut fath o fywydau sydd ganddynt? • Ydyn ni'n meddwl bod bywydau'r holl bobl ifanc yn holl wledydd y prosiect Young Lives yr un fath? Pam/pam ddim? • Beth sy'n wahanol a beth sy'n debyg rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a'm bywyd i? • Beth yw'r rhesymau posibl am y gwahaniaethau?	• Gweithgaredd 1.1: *Dyma…* • Gweithgaredd 1.2: *Dod i'ch adnabod chi* • Gweithgaredd 1.3: *Cymharu bywydau*	• *Sioe sleidiau Cymraeg A* (sleidiau 2–15) • Taflenni adnoddau: o *Croeso i'm bywyd: Netsa a Hadush (Ethiopia); Sarada a Salman (India); Elmer ac Eva (Periw); Phuoc a H'Mai (Fiet- nam)* • Taflenni gweithgaredd: o *Dyma… ; Dod i'ch adnabod chi; Cymharu bywydau*
Cymraeg 2: *Anghydraddoldebau mewn Bywydau Ifanc*	• Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i ddatblygu gwybodaeth ehangach am fywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives • Defnyddio cyflwyniad dramatig i bortreadu teimladau a gweithredoedd pobl eraill • Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i sbarduno trafodaeth • Datblygu empathi tuag at bobl eraill.	• Bydd y dysgwyr yn defnyddio lluniau llonydd i ddisgrifio agweddau ar fywydau'r bobl ifanc dan sylw o bedair gwlad y prosiect Young Lives. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio astudiaethau achos i nodi a chasglu ffyrdd y gall bywydau pobl ifanc ym mhedair gwlad y prosiect Young Lives a'r DU fod yn anghyfartal • Bydd y dysgwyr yn defnyddio gwe-ddiagram i grynhoi a threfnu eu syniadau am sut y mae bywydau'r bobl ifanc hyn yn anghyfartal a gallant drafod canlyniadau anghydraddoldeb ag eraill.	• Beth y gallwch ei weld yn y llun llonydd yma? Pa agweddau ar fywyd y person ifanc hwn yr ydych yn meddwl y mae'n eu disgrifio? • Sut yr ydych yn teimlo? • Beth mae hyn yn ei olygu? • Sut yr ydych yn meddwl y gallai bywydau'r bobl ifanc ym mhrosiect Young Lives fod yn anghyfartal? Pa anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn a'ch bywyd eich hun?	• Gweithgaredd 2.1: *Amlygu Empathi â Bywydau Ifanc* • Gweithgaredd 2.2: *Anghydraddoldeb mewn Bywydau Ifanc*	• *Sioe sleidiau Cymraeg A* (sleidiau 16–29) • Taflenni adnoddau: o *Croeso i'm bywyd: Netsa a Hadush (Ethiopia); Sarada a Salman (India); Elmer ac Eva (Periw); Phuoc a H'Mai (Fiet- nam)*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Cymraeg 3: *Bywyd yn niwrnod…*	• Nodi nodweddion, iaith, pwrpas a chynulleidfa math penodol o destun a gallu defnyddio'r wybodaeth hon yn eu hysgrifennu eu hunain. • Defnyddio ffynonellau ysgrifenedig i sbarduno trafodaeth. • Cydnabod effeithiau posibl lleoliad daearyddol (byw mewn ardal ddinesig neu wledig) a rhywedd ar fywydau pobl ifanc.	• Bydd y dysgwyr yn dadansoddi testun ac yn nodi ei nodweddion, ei iaith, ei ddiben a'i gynulleidfa • Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu "Bywyd yn niwrnod.." person ifanc arall o un o bedair gwlad y prosiect Young Lives: Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam. • Bydd y dysgwyr yn nodi anghydraddoldebau ym mywydau pedwar o bobl ifanc o Ethiopia ac India ac yn trafod effeithiau posibl rhywedd a lleoliad daearyddol.	• Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau'r bobl ifanc hyn? • Yn ein barn ni, beth yw'r rhesymau dros rai o'r gwahaniaethau hyn? • A ydym yn meddwl bod yr anghydraddoldebau hyn yn deg? Pam yr ydych yn meddwl hyn? • Beth yw diben a chynulleidfa'r testun hwn? Pa nodweddion ac iaith y mae'n eu defnyddio? • Pa mor dda ydw i wedi defnyddio'r wybodaeth hon yn fy ysgrifennu fy hun?	• Gweithgaredd 3.1: *Bylchau o fewn gwledydd* • Gweithgaredd 3.2: *Bywyd yn niwrnod…*	• *Sioe sleidiau Cymraeg B* (sleidiau 2–7) • Taflenni adnoddau: o *Bywyd yn niwrnod Afework a Tufa (Ethiopia); Harika a Ravi (India)* • Taflenni gweithgaredd: o *Bywyd yn niwrnod... Grid dadansoddi* o *Bywyd yn niwrnod... Templed cynllunio*
Cymraeg 4: *Gwneud dewisiadau anodd*	• Datblygu sgiliau darllen a deall, gan gyfeirio at dystiolaeth a dod i gasgliadau o destun • Trafod eu syniadau ag eraill yn y grŵp • Cydnabod pam y gallai teuluoedd yn Telangana fudo o ardal wledig i'r ddinas. • Datblygu empathi a dealltwriaeth o'r heriau y gallai rhai teuluoedd yn Telangana eu hwynebu.	• Bydd y dysgwyr yn gwella eu dealltwriaeth o destunau drwy ystyried pwrpas a chyd-destun • Bydd y dysgwyr yn dod i gasgliadau ac yn dod o hyd i dystiolaeth ategol • Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau ag eraill ac yn gwneud penderfyniadau fel grŵp • Bydd y dysgwyr yn datblygu empathi a dealltwriaeth o pam y gallai teuluoedd fudo o ardaloedd gwledig i'r ddinas 'r heriau y gallai teuluoedd eu hwynebu wrth wneud hynny.	• Pam yr ydych yn meddwl bod teulu Naresh wedi penderfynu mudo i Hyderabad? • A oeddech yn teimlo'n rhwystredig ar unrhyw adeg yn y gweithgaredd? • A ydych yn meddwl bod gan y teulu unrhyw ddewis ynglŷn â benthyca arian? Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym am sut y mae dyled yn effeithio ar bobl, yn enwedig plant? • Beth mae'r gweithgaredd hwn yn ei ddweud wrthym o ran pam mae pobl yn mudo?	• Gweithgaredd 4.1: *Gwneud dewisiadau anodd* • Gweithgaredd 4.2: *Pam y symudodd teulu Naresh i Hyderabad?*	• *Sioe sleidiau Cymraeg B* (sleidiau 8–11) • Taflenni adnoddau: o *Dyma Naresh 1* a *2* • Taflenni gweithgaredd: o *Gwneud dewisiadau anodd 1* a *2* o *Meddwl am Naresh*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Teitl y sesiwn	Amcanion Dysgu	Deilliannau Dysgu	Cwestiynau Allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Cymraeg 5: *Trafod rhywedd*	• Datblygu sgiliau dadlau a thrafod. • Archwilio rhagdybiaethau am rywedd • Defnyddio enghreifftiau a gwrthenghreifftiau i gyfiawnhau ymateb • Nodi rhai anghydraddoldebau rhwng y rhywiau ym mywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India.	• Bydd y dysgwyr yn ystyried yr effeithiau y credant y mae rhywedd yn eu cael ar eu bywydau eu hunain. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio clipiau fideo a ffynonellau ysgrifenedig i archwilio effaith rhywedd ar fywydau rhai pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India. • Bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn dadl ynghylch a yw bywyd yn fwy anodd i ferched sy'n byw mewn tlodi nag i fechgyn.	• Yn eich barn chi beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau bechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi yn y DU? • Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng bywydau bechgyn a merched sy'n byw mewn tlodi yn Ethiopia ac India? • A ydych yn meddwl y bydd rhywedd yn cael effaith debyg ar fywydau pobl ifanc sy'n byw mewn tlodi yng ngwledydd eraill y prosiect Young Lives (Periw a Fiet-nam).	• Gweithgaredd 5.1: *Ystyried rhywedd yn y DU* • Gweithgaredd 5.2: *Tlodi a rhywedd o fewn y prosiect Young Lives* • Gweithgaredd 5.3: *Trafod rhywedd a thlodi*	• Sioe sleidiau Cymraeg *B* (sleidiau 12 ac 13) • Taflenni adnoddau: o *Swyddogaeth Cadeirydd* o *Ystyried rhywedd a thlodi* o *Nodiadau cefndir ar anghydraddoldeb rhwng y rhywiau* • Fideos: o *Lleisiau o India* a Lleisiau o *Ethiopia*
Cymraeg 6: *Dymuniadau ar gyfer y dyfodol*	• Chwarae rôl • Trafod eu syniadau ag eraill yn y grŵp • Dod i gasgliadau am syniadau a dymuniadau pobl eraill • Datblygu empathi tuag at bobl eraill	• Bydd y dysgwyr yn chwarae rôl person ifanc o gymuned y prosiect Young Lives, gan ddychmygu beth yw ei ddymuniadau. • Bydd y dysgwyr yn archwilio ac yn trafod dymuniadau pobl ifanc o gymunedau'r prosiect Young Lives ym Mheriw • Bydd y dysgwyr yn myfyrio ar eu dymuniadau ar eu cyfer nhw a'u teuluoedd, eu cymuned a'u gwlad ac yn trafod y rhain â'r disgyblion eraill.	• Pa ddymuniadau sydd gennych i chi a'ch teulu, i'ch cymuned ac i'ch gwlad? • Yn eich barn chi, pa ddymuniadau fyddai gan y bobl ifanc hyn yng nghymunedau'r prosiect Young Lives? Pam yr ydych yn meddwl hyn? Pa debygrwydd a gwahaniaethau sydd rhwng dymuniadau'r bobl ifanc hyn o Beriw a'ch dymuniadau chi eich hun?	• Gweithgaredd 6.1: *Ein dymuniadau ar gyfer y dyfodol* • Gweithgaredd 6.2: *Dymuniadau Bywydau Ifanc ar gyfer y dyfodol*	• *Sioe sleidiau Cymraeg B* (sleidiau 14 ac 15) • Taflenni adnoddau: o *Croeso i'm bywyd: Netsa a Hadush (Ethiopia); Sarada a Salman (India); Elmer ac Eva (Periw); Phuoc a H'Mai (Fiet-nam)* o *Dymuniadau ar gyfer y dyfodol – Periw* • Taflen gweithgaredd: o *Fy nymuniadau ar gyfer y dyfodol…* • Fideos: o *Lleisiau o Beriw a Lleisiau o Ethiopia*

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol..
Trosolwg i athrawon

OXFAM

Dinasyddiaeth fyd-eang

Dyma adnodd ar ddinasyddiaeth fyd-eang a ysgrifennwyd ar gyfer athrawon daearyddiaeth, mathemateg a Chymraeg ac mae'n addas ar gyfer pobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed. Mae addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Awgryma Oxfam ddull Dysgu-Meddwl-Gweithredu er mwyn helpu i strwythuro gweithgareddau dinasyddiaeth fyd-eang a rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am sut i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallant hefyd olygu sicrhau bod pobl eraill yn fwy ymwybodol o fater neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth gweler: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Rhoi gwerth ar amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Gyda diolch yn arbennig i Caroline Knowles, María José Ogando Portela, Ina Zharkevich a Bridget Azubuike o'r tîm Young Lives yn Adran Datblygiad Rhyngwladol Prifysgol Rhydychen am eu mewnbwn wrth ysgrifennu'r deunyddiau hyn a chyrchu a choladu'r data a'r lluniau. Mae Young Lives yn cael cyllid craidd gan gymorth y DU drwy'r Adran Datblygiad Rhyngwladol.

Diolch i John Hopkin a Stephen Schwab (Cymdeithas Ddaearyddol), Rachael Horsman (Y Gymdeithas Fathemategol) a Gary Snapper (Cymdeithas Genedlaethol Addysgu Saesneg) am adolygu'r deunyddiau.

Diolch i Jo Elliott am olygu rhywfaint o'r deunydd fideo.

Gyda diolch arbennig i'r athrawon a'r ysgolion canlynol a'u dysgwyr am brofi ac adolygu'r deunyddiau:

- Margaret Haworth, Ysgol St Peter's, Huntingdon

Hawlfraint © Oxfam GB. Ni allwch ond atgynhyrchu'r ddogfen hon at ddibenion addysgol Trosolwg i Athrawon

OXFAM

- Mark Porter, United World College, De-ddwyrain Asia, Singapore
- Julie Blythe, Ysgol Christ's Hospital, Lincoln
- Celina Viner, Coleg Cymunedol Faringdon, Swydd Rhydychen
- Rachael Horsman, Coleg Pentref Cambourn, Caergrawnt

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau (Enw'r person ifanc): nifer o staff Oxfam.

- I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education
- I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect Young Lives: www.younglives.org.uk/
- I gael rhagor o wybodaeth am y Gymdeithas Ddaearyddol: www.geography.org.uk/
- I gael rhagor o wybodaeth am y Gymdeithas Fathemategol: www.m-a.org.uk/
- I gael rhagor o wybodaeth am y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysgu Saesneg: www.nate.org.uk/

Cefnogir gan:

MATHEMATICAL ASSOCIATION supporting mathematics in education

NATE

Geographical Association

Supported by players of PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB / Young Lives

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y llun, ynghyd ag Oxfam a Young Lives. Ni chewch ddefnyddio'r lluniau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r lluniau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.